SIARTER SIR GÂR

Rhanbarth Sir Gâr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Hydref 2004

Rhagair

1. Credwn y bydd byw'r iaith Gymraeg yn Sir Gâr dim ond os bydd cyfle naturiol i bawb ddysgu'r iaith, a'i defnyddio ym mhob maes o fywyd, ac os daw *cynnal ein cymunedau* yn ganolbwynt i ystod cyflawn o bolisiau cyhoeddus.

2. Credwn fod cyfrifoldeb ar y Cyngor Sir – fel cynrychiolwyr ein pobl – i weithio'n uniongyrchol tuag at wireddu'r amcanion hyn yn y meysydd lle mae ganddo rym, ac i osod esiampl ac annog eraill lle nad yw'n meddu ar y grym uniongyrchol.

3. Credwn fod i dynged y Gymraeg yn Sir Gâr arwyddocad dyfnach na mater iaith yn unig. Mae'n arwydd o barhad gwerthoedd cymunedol a rhyddid ein cymunedau i lunio eu tynged eu hunain.

4. Cyhoeddir y Siarter hon ar adeg dyngedfennol pan fo'r Cyngor Sir yn mabwysiadu dwy strategaeth:

   - Cynllun Datblygu Unedol
   - Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.

   Gallai'r strategaethau hyn danseilio'n cymunedau pentrefol Cymraeg a thynnu i ffwrdd ein prif adnodd o ran adfywiad. Mae mabwysiadu'r ddau gynllun hyn yn profi mai geiriau gwag yw'r nod yn eu Strategaeth Gorfforaethol o 'ddiogelu'r iaith a chymunedau Cymraeg' a bod angen strategaeth ymarferol.

5. Credwn fod 'Strategaeth Iaith y Sir' a hyrwyddir gan y Cyngor yn ddefnyddiol ond yn gyfangwbl annigonol ynddi'i hunan i sicrhau dyfodol i'r iaith gan nad yw'n ymwneud â'r prif bynciau gwleidyddol a fydd yn pennu dyfodol ein cymunedau. Mae 'Siarter Sir Gâr' yn cynrychioli ymdrech ddifrifol i wynebu'r pynciau hyn.

Er mwyn rhoi cyfle i'r Gymraeg fyw, argymhellwn y pecyn canlynol o gamau. Gyda'i gilydd, dyma '*Siarter Sir Gâr!*'

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Am ragor o wybodaeth am waith Cymdeithas yr Iaith yn Sir Gâr, ac am gyfle i ymaelodi neu gefnogi'n ariannol, cysylltwch â Cadeirydd y Rhanbarth, Sioned Elin:

Cyfeiriad: Rhanbarth Sir Gâr a Phenfro, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Dolwerdd, Llanfihangel ar Arth, Pencader, Sir Gaerfyrddin, SA39 9JU - **Ffôn:** 01559 384378 - **Ffacs:** 01559 384194 - **Ebost:** sioned@cymdeithas.com

1. Y Gymraeg yn Iaith Swyddogol

Dylai'r Cyngor Sir weithio'n raddol tuag at wneud y Gymraeg yn brif iaith ei weinyddiaeth ei hunan. Wedyn, bydd cyrff eraill y ceisir dylanwadu arnynt trwy gyfrwng Strategaeth Iaith y sir yn cymryd yr arweiniad o ddifri. Bydd hyn hefyd yn gosod addysg yn y sir mewn cyd-destun newydd. Gyda chyflogwr a darparwr gwasanaeth mwyaf y sir yn defnyddio'r Gymraeg yn ei waith o ddydd i ddydd, bydd cymhelliant llawer cryfach i ddysgu'r iaith yn effeithiol yn ein hysgolion.

2. Addysg Gymraeg ym mhob Cymuned

2.1 Dylid adolygu ac adfywio'r Cynllun Addysg Gymraeg yn ysgolion y sir trwy gyfrwng *continiwm iaith*. Dylai pob ysgol fod yn symud i fyny'r continiwm iaith trwy gryfhau eu defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn golygu cadarnhau Ysgolion Categori A gan gryfhau'r Gymraeg fel cyfrwng bywyd a gwaith pob ysgol. Bydd ysgolion AB a B yn gweithio tuag at gael eu hail-raddio'n ysgolion Categori A. Dylid estyn y strategaeth hefyd at addysg uwchradd.

2.2 Trwy gyfrwng y Consortiwm Addysg ac Hyfforddiant, ac yn enwedig trwy Goleg Sir Gâr, dylid sicrhau hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob sector o waith yn y sir fel y bydd rhyddid i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau ar gyfer myfyrwyr unigol ac hefyd raglenni wedi'u teilwra at anghenion cwmnïau a sefydliadau cyhoeddus er mwyn galluogi'u staff i gyflawni'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3 Dylid adeiladu ar lwyddiant Ysgolion Pentrefol o ran Cynhwysiant Cymdeithasol trwy sicrhau rhwydwaith o Unedau Addysg Cymdogaethol yn yr ardaloedd trefol hefyd. Yn ymarferol, golygai gynnydd mewn sefydliadau addysg hyblyg ac aml-safle – wedi'u cynllunio at anghenion hyfforddiant y cymunedau yn hytrach nac yn ôl cyfleustra gweinyddwyr. Dylid integreiddio a rhesymoli'r defnydd o'r adnoddau addysgiadol trwy sicrhau fod pob uned bentrefol neu gymdogaethol yn cynnig ystod o addysg sylfaenol i'r gymuned gan gynnwys dysgu Cymraeg i oedolion ac hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai Adran Adfywio Cymunedol y Cyngor Sir weithio trwy'r Unedau Addysg Cymunedol/Cymdogaethol hyn i wella sgiliau ac adnabod cyfleon datblygu economaidd yn lleol.

3. Adfywio Cymunedau Cymraeg

Yn unol â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Sir, dylid llunio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cynnal a datblygu ein cymunedau Cymraeg. Dylai strategaeth effeithiol gydnabod ar y naill law *botensial* pob cymuned yn y sir i ddod yn gymuned Gymraeg ond ar y llaw arall *realiti* amrywiaethol y sefyllfa bresennol. Gellid cyflawni hyn trwy drefn gategoreiddio cymunedau'r sir (polisi cyffelyb i gategoreiddio ysgolion) mewn ymgynghoriad â'r Cynghorau Cymuned perthnasol. Byddai gwahanol strategaethau ar gyfer gwahanol gategoriau gyda'r un egwyddor o gontiniwm cynyddol. Dylai swyddogion penodol o fewn Adran y Prif Weithredwr fod yn gyfrifol am sicrhau fod pob Adran o'r Cyngor yn cyfrannu'n ymwybodol at y strategaeth ac yn ystyried effaith eu *holl* bolisïau ar gynaladwyedd cymunedau Cymraeg. Bydd angen Adolygiad Anghenion brys, gyda phwyslais ar sicrhau fod pobl ifainc yn gallu dewis byw yn y cymunedau Cymraeg a chael profiad bywyd cyflawn o wneud hynny. Ymhlith y meysydd polisi fyddai'n cyfrannu at y strategaeth, fe fyddai'r canlynol :

- Polisi Tai i gynnal cymunedau Cymraeg – gan sicrhau cynllun cymorth prynu a digonedd o unedau ar rent (gan gynnwys Unedau Ieuenctid h.y. i unigolion ifainc).

- Polisi Cynllunio i gynnal cymunedau Cymraeg – gan sicrhau fod yr effaith ar gynaladwyedd y gymuned a'i diwylliant yn brif ffactor wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- Unedau Addysg Cymunedol yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn agored i'r gymuned gyfan ar gyfer Clybiau Ieuenctid a dysgu sgiliau i hybu cyfleon gwaith.
- Polisi Trafnidiaeth ar gyfer cynnal cymunedau Cymraeg – gan ystyried anghenion pobl ifainc heb gerbydau a theuluoedd gydag un cerbyd. Dylid sicrhau gwasanaeth minibws i gysylltu'r cymunedau gyda mannau gwaith yn ystod y dydd a chanolfannau cymdeithasu ac hamdden gyda'r hwyr – gan gynnwys gwasanaeth hwyr yn ôl o'r trefi.
- Cyfleon Gwaith i gynnal y cymunedau trwy gyfuniad o hyfforddiant yn yr Unedau Addysg, trafnidiaeth rwydd i fannau gwaith a hybu mentrau cymunedol yn y sectorau cynhyrchu neu wasanaethau.
- Polisi Iaith amrywiol ar gyfer y Cynghorau Cymuned a gwasanaethau cyhoeddus yn y gwahanol gategorïau o gymunedau. Cymraeg fyddai prif iaith swyddogol bywyd cyhoeddus a gwasanaethau yn y cymunedau categori A.
- Dylai'r Cyngor Sir ymgynghori'n ffurfiol â Chynghorau Ieuenctid a Myfyrwyr Ysgol ynghylch pob Cynllun Datblygu fel eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses o lunio dyfodol i'w cymunedau.

4. Cyfleusterau Hamdden

4.1 Dylai'r Strategaeth geisio gwneud y cymunedau'n lleoedd bywiog fel y byddai pobl ifainc yn gweld eu dyfodol ynddynt. Sicrhau bywyd cymunedol bywiog fyddai prif waith y *Mentrau Iaith.*

4.2 Byddai cyfraniad pwysig (gw. Uchod) gan Bolisi Trafnidiaeth Gyhoeddus hyblyg fel y gall pobl ifainc fyw mewn pentrefi Cymraeg ac eto fwynhau cyfleusterau hamdden trefol.

4.3 Gyda hyder cynyddol y cymunedau Cymraeg, gellid marchnata eu Cymreictod gydag Ymgyrchoedd Twristiaeth Gymuned-gyfeillGâr (ar batrwm twristiaeth eco-gyfeillGâr) gan ddenu twristiaid Ewropeaidd a fyddai â diddordeb mewn profi diwylliant Cymraeg bywiog. Dyma sicrhau na fyddai'r cymunedau'n fewnblyg ac, yn ymarferol, gallai arian gan fentrau twristaidd yn yr haf gynnal llawer o fandiau a chwmnïiau diwylliannol i gyfrannu at fywyd y cymunedau trwy'r gaeaf.

5. Dylai'r Cyngor Sir bwyso ar Awdurdodau priodol eraill i weithredu ar faterion tu allan i reolaeth y Cyngor:

- Ar San Steffan am Ddeddf Iaith a Deddf Eiddo i Gymru.
- Ar y Cynulliad i gyllido tai ar rent a chynlluniau cymorth prynu.
- Ar Gronfa Ewropeaidd Amcan 1 i gyllido prosiectau datblygu cymunedau Cymraeg oherwydd eu pwysigrwydd diwylliannol Ewropeaidd.
- Ar *ELWA* a Sefydliadau Addysg Uwch o ran cyllido Unedau Addysg Cymunedol, a rhaglenni ymchwil i adnabod anghenion y cymunedau hyn.
- Ar bartneriaid preifat – gan osod esiampl ac arweiniad yn holl waith y Cyngor.

Hyd yn hyn, bu pwyslais ar gynyddu nifer yr unigolion sy'n dweud bod ganddynt wybodaeth o'r Gymraeg. Yn y dyfodol, rhaid canolbwyntio ar hybu'r <u>defnydd</u> a wneir o'r Gymraeg.